

TARO'R TARGED

Gomer



Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

John Townsend

Addasiad Elin Meek

Cyfres yr Hebog



Pennod 1

Cuddio

Roedd cil y drws ar agor ond doedd Bledwyn ddim yn gallu gweld beth oedd yn yr ystafell.

Clywodd rywun yn cripian i lawr y coridor y tu ôl iddo. Roedd yn rhaid iddo symud yn gyflym. Rhoddodd ei law ar y ddolen. Agorodd Bledwyn y drws led y pen a lithro i mewn i'r ystafell. Roedd hi'n dawl ac yn dywyll yno. Roedd ychydig bach o olau'n dod i mewn drwy'r bleinds. Gallai e weld bwrdd mawr a chadeiriau plastig glas o'i gwmpas. Roedd siart troi ym mhen draw'r ystafell. Lle i gynnal cyfarfodydd oedd hwn, meddyliodd Bledwyn.

Aeth cysgod dros y drws. Gwasgodd Bledbyn o dan y bwrdd. Ceisiodd beidio â bwrw yn erbyn coesau'r cadeiriau wrth iddo gropian fel pry copryn dros y carped. Aeth dros weddillion hen greision i'r bwlch tywyll o dan y bwrdd. Byddai'n ddiogel fan hyn, gyda lwc. Yn ddiogel rhag Lowri.

Roedd e'n gwybod y byddai Lowri'n chwilio amdano'n barod. 'Fe fentra i £5 na fyddi di'n gallu dod o hyd i mi mewn pum munud,' roedd Bledbyn wedi'i ddweud, ac roedd y ddau wedi gosod y larwm ar eu watsys.

Nawr roedd Bledbyn yn ddiogel, yn cuddio o dan y bwrdd. Gwasgodd y botwm i oleuo'i wats. Roedd un funud, 48 eiliad wedi mynd yn barod. Fyddai Lowri byth yn dod o hyd iddo fan hyn.

Roedd e'n siŵr y byddai'n ennill y £5. Ond roedd e'n gwybod y byddai tipyn

o helynt petai Mrs Prys yn dod o hyd iddyn nhw'n chwarae cuddio yn y gwesty. Ar ôl yr hyn ddwedodd hi wrtho awr yn ôl, roedd e'n gwybod y byddai hi'n wyllt gacwni!

'Bledbyn Jones, gair bach, os caf i,' roedd hi wedi'i ddweud. 'Dwi'n gwybod mai ti yw'r person ifancaf ar y trip sŵio ysgol yma, ond rwyf ti'n 13 ac fe ddylet wybod yn well.

Chei di ddim chwarae gêmiau bach twp mewn gwesty mawr. Fe welais i di'n chwarae o gwmpas yn y liff nawr. Do'n i ddim eisiau dod â ti ar y trip yma yn y lle cyntaf, ond roedd dy rieni'n mynnu. Rhaid i ti beidio eu siomi nhw na fi. Wyt ti'n deall?'

Arhosodd hi i Bledbyn roi golwg 'sori' ar ei wyneb. Roedd e'n gallu gwneud yr olwg yma'n dda iawn ac roedd y rhan fwyaf o'r athrawon yn cwympo amdani. Gallai wneud iddo'i hunan edrych fel ci bach annwyl. Ond weithiodd hyn ddim ar Mrs Prys.

Aeth hi yn ei blaen, 'Gan i ti wneud mor dda ar y llethr sgïo sych, ro'n i'n teimlo'n siŵr y byddet ti'n addas i'r trip yma. Gan dy fod ti mor dda yn gwneud gymnasteg hefyd, dwi'n disgwyl pethau mawr oddi wrthot ti. Ond os bydd yn rhaid i mi siarad â ti eto, Bledwyn, fe fydda i'n hynod o grac a blin.'

'Mae'n ddrwg gen i, Mrs Prys.' Doedd golwg 'ci bach trist' Bledwyn dal ddim yn gweithio. Ac wedyn dwedodd Mrs Prys rywbeth a oedd yn swnio'n greulon, hyd yn oed iddi hi.

'Dyw hi ddim yn rhy hwyr i mi ffonio dy rieni. Fe alla i ddweud wrthyn nhw am ddod yma i dy gasglu di, cofia.'

Pam nad oedd Mrs Prys yn ei hoffi?
Doedd Bledwyn ddim yn deall y peth. Roedd oedolion fel arfer yn meddwl ei fod yn 'ŵr ifanc â thipyn o dân ynddo'. Roedd pawb

yn y Clwb Gymnasteg yn ei hoffi – ond doedd ei sgiliau gymnasteg yn golygu dim i Mrs Prys.

Roedd hi wedi bod mewn hwyliau drwg ers i'r trip sgïo ddechrau mynd o chwth. Roedden nhw wedi gorfod aros drwy'r bore yn y maes awyr i'r niwl godi. Roedd hynny wedi rhoi straen mawr arni hi. Wedyn roedd y maes awyr wedi cyhoeddi y byddai pob awyren i Awstria'n hedfan 24 awr yn hwyr. Treuliodd Mrs Prys y prynhawn yn ceisio trefnu lle i'r criw ysgol mewn gwesty ar bwys y maes awyr. Dyna lle roedd y plant i gyd yn eistedd, wedi diflasu, yn gwrando ar eu iPods. Ond roedd Mrs Prys ar y ffôn gyda'r cwmni yswiriant a'r straen yn amlwg yn ei llygaid.

Roedd y trip wedi dechrau'n wael. Yn syth ar ôl i bawb gael sedd ar y bws y tu allan i'r ysgol, canodd larwm wats Bledwyn yn uchel. Roedd pawb wedi chwerthin. Roedd y



larwm ar ei wats yn gwneud sŵn ceiliog yn canu. Doedd Mrs Prys ddim wedi chwerthin. 'Os clywa i'r sŵn 'na eto, Bledwyn Jones, fe fydda i'n mynd â'r wats oddi arnat ti.'

Wedyn aeth pethau'n waeth byth.

Ffoniodd mam Bledwyn ar y ffôn bach yr union funud honno. Roedd hwnnw'n canu'n uchel a rhyfedd hefyd. Roedd Bledwyn wedi

lawrlwytho ffel o'r enw 'drylliau'n saethu' gyda sŵn tanio arno ac ychydig o sŵn gynnuau-peiriant ar y diwedd. Roedd e'n uchel.

'Diffoddad'r peth 'na, nawr!' cyfarthodd Mrs Prys. Roedden nhw hanner ffordd i lawr lôn yr ysgol pan ddwedodd hi wrth yrrwr y bws am stopio er mwyn iddi hi gael gweiddi

i mewn i'r meicroffon. 'Dim synau uchel plentynnaidd ar fy nhrïpiau i, diolch yn fawr,' meddai. 'Na bechgyn bach twp fel Bledwyn Jones chwaith.' Cymerodd hi ffôn bach Bledwyn oddi arno a'i roi yn ei bag.

Gwnaeth pen-glin Bledwyn sŵn bach wrth symud o dan y bwrdd. Roedd e'n goboeithio nad oedd Lowri wedi clywed. Roedd yr eiliadau'n mynd heibio ond roedd hi'n dal yn bosib iddi ennill y gêm. Ai hi oedd newydd ddod i mewn i'r ystafell? Petai hi'n edrych o dan y bwrdd, byddai'n ei weld. Arhosodd Bledwyn i esgidiau rhedeg Lowri ddod i'r golwg wrth ei ymyl . . . ond yn lle hynny gwelodd goesau rhywun arall.

Esgidiau dyn – rhai du – a throwsus tywyll.

Clywodd Bledwyn y drws yn cau a daeth pâr arall o draed, y tro hwn mewn sandalau, i sefyll ym mhen pellaf y bwrdd,

yn agos at y siart troi. Daliodd Bledwyn ei anadl wrth i'r esgidiau du wichian yn union wrth ei law. Roedd ei fysedd mor dynn fel na theimlon nhw ddarn o fadarch oer oedd wedi'i sathru i mewn i'r carped. Doedd hwn ddim yn le da i guddio. Doedd e ddim eisiau i neb ddod o hyd iddo fan hyn. Ddim nawr.

mae rhagor o amser gyda ni nawr. Fe fyddan nhw'n rhoi gwybod cyn hir pryd mae'r awyren yn gadael. Fe welï di ben draw y rhedfa o'r ffenest ar ôl i'r niwl glirio.'

Pennod 2

Eiliadau'n Tician

Cyrlodd Bleddyn yn belen er mwyn ceisio gwneud i'w hunan ddiflannu.

'Reit, does dim llawer o amser gyda ni,' meddai'r dyn yn yr esgidiau du. Roedd e'n siarad fel petai ar frys a ddim eisiau i neb arall glywed ei neges. 'Dyma'r allwedd i 829.'

Daeth sŵn uchel uwchben Bleddyn wrth i'r allweddï lanio ar y bwrdd.

'Fe fydd popeth yno i ti - telesgop, radios, amserlenni. Edrycha ar y we hefyd bob hyn a hyn. Mae'r niwl wedi drysu pethau, ond

Crafodd yr allweddï ar draws y bwrdd.

Symudodd y sandalau'n nes. Aroglodd Bleddyn draed chwyslyd wrth i ddyn arall ddechrau siarad. Gallai Bleddyn ddweud mai tramorwr oedd y dyn. 'A'r beic modur? Fe fydd yn rhaid i mi ddianc yn gyflym,' meddai.

'Mae e yn y maes parcio o dan y gwesty. Mae popeth yn barod. Dim problem.'

Yn sydyn cwympodd yr allweddï i'r llawr a bownsio ar law Bleddyn. Cafodd fraw a bu bron iddo weiddi'n uchel. Roedd dwy allwedd ar gylch allweddï, gyda'r rhif - 829. Arhosodd Bleddyn ddim i feddwl. Dyma fe'n symud ei law a tharo'r allweddï. Aethon


nhw ar draws y carped a bwrw yn erbyn yr esgidiau du.

Daliodd Bleddyn ei anadl eto. Dydy allwedi ddim fel arfer yn cwympo i'r llawr ac yn bownio fel yna. Tybed a fyddai'r dynion yn dyfalu bod rhywun yn cuddio o dan y bwrdd? Sut byddai e'n egluro beth roedd e'n ei wneud?

Estynnodd llaw i lawr i godi'r allwedi. Roedd wyneb y dyn yn yr esgidiau du bron ar yr un lefel â'r bwrdd wrth iddo geisio cyffwrdd â'r allwedi. Doedd Bleddyn ddim yn gallu peidio edrych ar law'r dyn. Llaw dde oedd hi . . . a'r bys bawd ar goll.

Daeth llais y dyn yn uchel i'r man lle roedd Bleddyn yn cuddio.

'Gofala di bod y dryll 'na wedi'i lwytho bob amser. Paid ag agor y drws i neb. Dim ond i mi. Fe rof i'r cod i mewn. A phaid â



gadael unrhyw olion bysedd. Fe fydd M15 yn chwilio drwy'r gwesty yma i gyd ac fe fydd DNA ganddyn nhw ar eu ffeiliau.'

Tawelodd y llais o'r diwedd wrth i'r dyn sefyll ar ei draed eto. Roedd e wedi codi'r allwedd heb edrych o dan y bwrdd. Doedd Bledwyn ddim yn gallu anadlu. Yn ei feddwl, roedd e'n dal i allu gweld y llaw heb fawd.

'Dyma'r ystafell lle cawn ni gwrrd i weld sut mae pethau'n mynd. Os clywi di sŵn curo ar y drws – chwe churiad sydyn ac yna bwlch, a churiad arall wedyn – mae'n golygu bod yn rhaid i ti ddod yma ar unwaith. O'r gorau? Unrhyw gwestiynau?'

'Yy . . . na. Fi'n lladd gyntaf – gofyn cwestiwn wedyn.'

Roedd Bledwyn eisiau i'r dynion fynd nawr. Roedd e'n gwybod ei fod wedi clywed gormod yn barod a'i fod yng nghanol

rhywbeth brawychus. Fyddai gwneud llygaid ci bach ddim yn gweithio ar y dynion yma. Ychydig funudau o'u sgwrs roedd e wedi'u clywed a doedd hi ddim yn gwneud synwyr. Ond roedd e'n gwybod y byddai mewn helynt mawr petaen nhw'n dod o hyd iddo.

Mewn gwirionedd, roedd Bledwyn wedi bod o dan y bwrdd am lawer gormod o amser. Doedd e ddim yn ddiogel. Roedd ei wats yn dal i dician tuag at y dedlein pum munud. Dyna pryd byddai'r larwm yn canu i ddangos bod y gêm roedd e'n ei chwarae gyda Lowri wedi dod i ben. Dim ond 16 eiliad oedd ar ôl cyn y byddai ei wats yn canu fel ceillog. Ond roedd Bledwyn wedi anghofio am hynny, wrth i'r esgidiau duon fynd tuag at y drws a throï.

'Peth arall. Cadwa'r arwydd **LIONYDD OS GWEIWCCH YN DDA** ar dy ddrws.'

15 eiliad ar ôl.

'Paid â phoeni. Fydd neb yn mynd i mewn i'r ystafell yna,' meddai dyn y sandalau.

13 eiliad.

'Beth oedd hwnna?'

'Beth?'

'Sŵn. Mae rhywun fan 'na.'

'Ble?'

'Y tu allan.'

Agorodd dyn y sandalau'r drws. Clywodd Bleddyn lais menyw.

'Mae galwad ffôn i chi i lawr wrth y ddesg, syr,' meddai'r fenyw.

'O'r gorau. Fe fydda i gyda chi nawr,' meddai'r dyn heb fawd. Doedd e ddim yn swmio'n nerfus.

Wyth eiliad ar ôl.

'Wyt ti'n meddwl ei bod hi wedi clywed rhywbeth?' Roedd dyn y sandalau ar bigau'r drain.

'Paid â phoeni. Os gwelaf i ei bod hi'n gwybod unrhyw beth, fe drefnwn ni rywbeth ar ei chyfer hi.'

Pedair eiliad ar ôl.

Cerddodd y ddau bâr o draed allan o'r ystafell a chaeodd y drws y tu ôl iddyn nhw - wrth i wats Bleddyn ganu fel ceiling. Pwysodd Bleddyn ei law'n galed ar fotwm y larwm, mor gyflym fel y tarodd ei ben ar y bwrdd. Wedyn roedd pobman yn dawel. Heblaw am sŵn ei galon yn curo.

Agorodd y drws yn sydyn. 'Glywaist ti 'na?' Cerddodd dyn y sandalau'n gyflym i mewn i'r ystafell.

'Paid â phoeni. Rwyf ti'n rhy nerfus o lawer. Rhywbeth y tu allan i'r ffenest oedd e. Mae'r lle'n llawn o blant.'

'Hmm.' Doedd dyn y sandalau ddim yn swmio mor siŵr. Safodd am rai eiliadau cyn troi, mynd allan drwy'r drws a'i gau'n glep y tu ôl iddo.

Roedd yr ystafell yn wag unwaith eto.

Gorweddodd Bledwyn ar ei fol ar lawr ac ochneidio. Doedd dim ots am y sosej wedi hanner ei bwyta wrth ei foch. Symudodd e ddim am ddwy funud arall. Roedd ei ben yn troi. Dyna sut roedd e'n dal i orwedd pan ddaeth Lowri o hyd iddo.

Pennod 3

Mae'n Bryd Gwneud Rhywbeth

'Mae'r dewis yn syml,' meddai Lowri wrth Bledwyn. 'Naill ai rwyf ti'n dweud wrth Mrs Prys dy fod ti wedi clywed rhyw ddynion amheus a allai fod yn gwneud rhywbeth rhyfedd. Neu rwyf ti'n dweud wrth y gwesty amdany'n nhw. Mae 'na ddyn diogelwch yn y cyntedd. Neu, fel arall, rwyf ti'n cau dy geg ac esgus nad oes dim byd wedi digwydd. Syml, on'd yw e?'

Meddyliodd Bledwyn. 'Dwi wedi penderfynu'n barod. Os bydda i'n dweud

wrth Mrs Prys, fe fydd hi'n fy anfon i adre.' Siaradodd Bledwyn yn ei llais hi – 'Rwyf ti wedi bod yn chwarae o gwmpas ac yn creu storiâu plentynnaidd. Rydyn ni i gyd wedi cael llond bol. Hen fachgen bach dwl wyt ti, dyna i gyd. Fe fydd yn rhaid i mi ffonio dy rieni, Bledwyn Jones.' Roedd e'n gallu ei dynwared hi'n berffaith.

Gwenodd Lowri. Ond doedd Bledwyn ddim yn esgus. Doedd ei syniad arall hi yn dda i ddim chwraith.

'Does dim pwynt dweud wrth y dynion diogelwch,' meddai wrthi. 'Gwastroff anser yw hynny. "Plentyn â syniadau twp" fydda i. Wedi clywed dynion rhyfedd. Dim prawf. Beth bynnag, fe fydden nhw'n siŵr o ddweud wrth Mrs Prys. Edrych, Lowri, alla i ddim profi unrhyw beth, ond dwi'n dweud wrthot ti – mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd.'

Edrychodd Lowri ar ei llygaid. Doeden nhw ddim yn feddal fel llygaid ci bach nawr. Roedden nhw'n galed. 'Mae'n amlwg nad wyt ti'n mynd i anghoŵo am hyn,' meddai hi.

'Alla i ddim, Lowri. Roedd rhywbeth rhyfedd am lais dyn y sandalau. Dyn drwg yw e. Mae e'n cynllwynio rhywbeth ofnadwy. Dwi'n gwybod. Mae'n rhaid i mi wneud rhywbeth. Mae'n rhaid i mi weld beth mae e'n ei wneud ac wedyn galla i ddweud wrth y dynion diogelwch. Petai gen i rywfaint o brawf, gallwn i roi ychydig o ffeithiau iddyn nhw. Mae'n rhaid i mi edrych yn Ystafell 829 fy hunan.'

Doedd Lowri ddim mor siŵr. 'Ond os yw dy stori di'n wir, gallai fod dyn yn Ystafell 829. Dyn â dryll sy'n barod i'w ddefnyddio fe.'

'Dwi'n gwybod,' meddai Bleddyn. 'Mae cynllun gen i'n barod. Ac a dweud y gwir, mae angen dy help di arna i.'

'O'r gorau. Dim ond os caf i fenthbyg dy wats di pan fyddwn ni'n mynd i sgïo. Dw i'n dwlu ar y larwn ceiling yna. Mae e mor uchel. Fe fyddai'n syniad ei adael e yn ystafell wely Mrs Prys a'i osod i ganu am ddau o'r gloch y bore!'

Gwenodd Bleddyn wrth glywed y syniad, ond yr eiliad honno roedd ganddo rywbeth arall i boeni amdano. Roedd angen iddo feddwl yn ofalus. Sut y gallai ddweud wrth y dynion diogelwch am ddyn y sandalau fel eu bod nhw'n credu ei storï? A phwy oedd y dyn heb fawd? Dyn y Sandalau a Dim Bawd. Roedd e'n swnio fel teitl ffilm ryfedd.

'Ga i fenthbyg dy ffôn bach di?' gofynnodd Bleddyn i Lowri. 'Fe alla i ei ddefnyddio fe i dynnu lluniau. Pan fydd prawf gyda fi beth

sy'n digwydd, fe fydda i'n gallu ei roi e i'r dynion diogelwch ac wedyn fe fyddan nhw'n fy nghredu i.'

'Dyna'r unig help rwy't ti eisïau, cael benthbyg fy ffôn bach i?' cwynodd Lowri.

'Dwi'n credu y gallwn ni ddefnyddio dy dalent actïo di, Lowri,' aeth Bleddyn yn ei flaen. 'Wyt ti'n gallu esgus bod yn fenyw glanhau? Mae'r gwesty'n llawn o fyfyrwyr sy'n glanhau. Fe welais gwprdd glanhau ar ein landin ni pan o'n i'n chwilio am rywle i guddio. Fe allen ni gael gwisg i ti a phopeth. Wedyn fe elli di gael rhywbeth i mi.'

'Mae'n swnio'n iawn i mi. Beth wyt ti eisïau?' gofynnodd Lowri.

'Dim ond allwedd. Yr allwedd i Ystafell 829.'

* * *

Hanner awr yn ddiweddarach, roedd Bledwyn yn eistedd yng nghyntedd y gwesty. Roedd tipyn o fwrwm yno. Iacis yn mynd a dod; pobl yn rhuthro o gwmpas neu'n sefyll ac yn disgwyl. Oherwydd bod yr awyrennau'n hwyr yn gadael, roedd y gwesty'n llawn dop. Daeth llais dros yr uchelseinydd. Byddai rhai awyrennau i America'n gadael cyn hir, ond roedd y rhan fwyaf o'r awyrennau eraill wedi cael eu dal yn ôl am 24 awr.

Gwyliodd Bledwyn y bobl yn symud o gwmpas. Roedd e wedi dod o hyd i sedd wrth ymyl peiriant diodydd. Roedd dyn wrth y ddesg diogelwch yn ceisio helpu menyw oedd wedi colli rhywbeth, ond doedd hi ddim yn siarad Saesneg. Roedd rhywun arall yn eistedd yn darllen papur newydd. Edrychodd Bledwyn draw a gweld y pennawd – '*Ofti bydd Ymosodiad ar Faes Awyr*'. Am y tro cyntaf dechreuodd Bledwyn feddwl . . . beth petai? Beth oedd e wedi'i glywed i

fyny'r grisiau? Neu a oedd e'n meddwl gormod? Efallai mai chwarae o gwmpas roedd y ddau ddyn yn yr ystafell lle roedd e wedi cuddio. Efallai ei fod yn gwneud môr a mynydd o bopeth . . . Daeth Bledwyn yn ôl i'r presennol. Roedd rhywun yn dweud rhywbeth wrtho.

'Gobeithio chi'n mwynhau aros yma, syr. Ond plûs, dim chwarae yn y lifft.' Edrychodd Bledwyn ar y ferch glanhau a symud ei draed iddi gael brwsio'r llawr. Wedyn sylwedolodd pwy oedd hi. Ceisiodd beidio â chwerthin. Lowri oedd hi! Roedd hi'n edrych yn wych mewn dyngarŷs, sgarff am ei phen a llond bwced o bethau glanhau wrth ei thraed!

'Dilynwch fi, syr.' Cerddodd Lowri i mewn i un o'r lifftiau a dilynodd Bledwyn rai canau y tu ôl iddi. Roedd e'n dal i geisio peidio â chwerthin. Ddwedon nhw 'run gair tan i'r drysau gau fel bod neb arall yn gallu clywed.



'Dyma hi,' meddai Lowri a gwenu'n falch.
Daliodd allwedd i fyny a rhif wrthi – 829.

'Roedd yn rhaid i mi lofnodi amdani ac
ro'n i'n meddwl y bydden nhw'n sylweddoli
mod i'n twyllu. Ond mae pawb mor brysur,
felly sylwodd neb arna i. Dwedais i wrth
rywun fy mod i wedi cloi fy allwedd yn yr
ystafell a bod angen i mi fenthg allwedd
sbâr am ddwy funud. Syml iawn. Dyma ti,
Bleddyn. Dy dro di nawr. Fi oedd â'r gwaith
hawdd.'

Rhoddodd yr allwedd i Bleddyn wrth i'r
liff aros ar y llawr uchaf. Agorodd y
drysau. Roedd Ystafell 829 rywle i lawr y
coridor hit, tywyll . . . tunnel o garped glas
a rhes o ddrysau wedi'u cau.

Pennod 4

Ystafell 829

Roedd y coridor yn dawel. Yn y pen pellaf daeth Bleddyn o hyd i'r drws â 829 arno.

Roedd arwydd yn hongian ar y ddolen -

LLONYDD OS GWELWCH YN DDA. Ond doedd e ddim yn bwriadu rhoi llonydd i'r dyn. Roedd ei ddwylo'n chwysu a'i wddf yn teimlo'n dynn.

Roedd y cynllun yn syml. Byddai Bleddyn yn curo chwe gwaith ar y drws, yna'n aros eiliad a churo wedyn ar ôl bwlch. Wedyn byddai'n rhedeg i'r cwpwrdd glanhau i lawr y coridor. Roedd Lowri'n cuddio yno'n barod. Roedd yn cymryd munud a hanner

i gyrraedd yr ystafell cyfarfodydd oedd ddau lawr oddi tanyrn nhw. Roedd Lowri a Bleddyn wedi amseru hyn yn barod. Byddai Dyn y Sandalau'n cerdded heibio i'r cwpwrdd a byddai wedi mynd am dair munud. Dim ond tair munud oedd gan Bleddyn i fynd i mewn i Ystafell 829, tynnu lluniau gyda ffôn bach Lowri a sleifio allan i guddio yn y cwpwrdd eto. Roedd yn rhaid iddo wneud popeth cyn i Ddyn y Sandalau ddod yn ei ôl. Byddai Lowri'n cadw golwg, ac os oedd Dyn y Sandalau'n cyrraedd yn ôl yn gynnar, byddai'n tanio'r hwfer. Byddai'r sŵn yn rhybuddio Bleddyn i ddod allan yn gyflym, a rhedeg.

Iynnodd Bleddyn anadl ddofn a chodi'i ddwrn. Cnoc, cnoc, cnoc, cnoc, cnoc . . . aros . . . cnoc. Rhedeg! Rhuthrodd i'r cwpwrdd a'i dafu ei hun i mewn, a thynnodd Lowri'r drws ar gau gan adael bwlch bach i edrych drwyddo. Roedd Dyn y Sandalau allan yn barod, yn edrych o'i

gwmpas. Cerddodd yn drwm heibio i'r cwpwrdd, i lawr y coridor a diflannu i mewn i'r lifft. Gyda ffôn bach Lowri mewn un llaw a'r allwedd yn y llall, rhedodd Bledwyn yn ôl i Ystafell 829.

Ar ôl cyrraedd yr ystafell, dechreuodd Bledwyn edrych ar yr holl lanast ar y gwely. Roedd mapiau a chynlluniau ym mhobman. Credai Bledwyn eu bod yn edrych fel mapiau o redfeydd meysydd awyr. Roedd nodiadau am onglau a phellteroedd ar lyfrau nodiadau. Roedd gliniadur yn dangos rhestr o amseroedd a manylion awyrennau. Ar y sgrin roedd: **Ehediad RS 621 i**

Washington yn hwyr yn gadael. Byddwn yn cyhoeddi'r amser gadael newydd ar y wefan.

Cliciodd Bledwyn fotwm camera'r ffôn bach, troi a bwrw plât o sglodion ar y llawr. Ceisiodd eu clirio nhw, ac aeth sos coch dros ei fysedd i gyd. Roedd yr amser yn mynd a doedd e ddim wedi dod o hyd i unrhyw beth

fyddai'n dangos i'r heddlu bod rhywbeth o'i le.

Dyna pryd y gwelodd Bledwyn faril dryll mawr o dan y gwely. Camodd yn ôl mewn syndod a llithro ar y papurau oedd dros y llawr i gyd. Roedd taflen yn dangos arf o'r enw 'Iglu - 9K38'. 'PAMS,' darllenodd yn gyflym. 'Portable Anti-Aircraft Missile System.' Taflegryn i saethu at awyrennau! Gwasgodd fotwm y ffôn bach â'i fys gludïog. Goleuodd fflach y camera'r ystafell i gyd wrth iddo weld ei adlewyrchiad mewn drych. Roedd sos coch ar ei wefus uchaf. Edrychai fel petai ei drwyn wedi bod yn gwaedu.

Ychydig o amser oedd ar ôl ac roedd hi'n rhy beryglus iddo dynnu'r dryll allan o dan y gwely er mwyn cael llun clir. Yna, ar gadair, gwelodd Bledwyn ddarnau o bapurau newydd mewn gwahanol ieithoedd. Roedd nodyn wedi'i sgriblo ar ben y darnau papur. Doedd dim syniad gan Bledwyn beth oedd

cynnwys y nodyn, ond cododd y ffôn bach eto.

Fflach. Edrychodd ar ei wats. Llai na 30 eiliad ar ôl.


Roedd Lowri'n dal i sefyll y tu allan i'r ystafell. Edrychodd hi i fyny o'i wats a thynnu anadl. Roedd hi'n edrych yn syth i mewn i lygaid dyn blin a chrac.

'Beth ti'n gwneud yma?' gwaeddodd. 'Ti dim yn gallu darllen? Arwydd yn dweud llonydd i fi.'

Gwasgodd troed Lowri fotwm yr hwfer, ond rhwygodd Dyn y Sandalau y plwg o'r soced.

'Fi'n dweud llonydd. Cer. Allan o fan hyn.' Gwthiodd ei allwedd i mewn i'r drws a'i gicio ar agor.

'Sori, syr,' meddai Lowri o dan ei hanadl. Gollyngodd y cebl ar ei droed. Cydiodd y



cebl yn ei sandal a throdd y dyn yn ôl yn grac.

'Y ffŵl! Allan o fan hyn!' Cododd ei ddwrn fel petai'n mynd i'w bwrw hi.

Roedd Lowri ar dân eisiau rhoi ychydig mwy o amser i Bledodyn gael dianc. 'Sori, fi dim deall,' meddai. 'Beth chi'n dweud, syr?'

Ciciodd Dyn y Sandalau yr hwfer ar draws y coridor, troi a gwrthio i mewn i'r ystafell.

Caeodd y drws yn glep y tu ôl iddo a chwympodd yr arwydd **LLONYDD OS**

GWEIWCN YN DDA i'r llawr. Roedd calon Lowri'n curo'n galed. Roedd hi wedi methu.

Doedd Bledodyn ddim wedi dianc mewn pryd. Roedd e'n dal yn sownd y tu mewn.


Pan glywodd Bledodyn yr allwedd yn y clo, rhewodd. Beth allai e wneud? Doedd unlle i guddio. Doedd dim amser i feddwl, felly rhedodd at y ffenest. Roedd balconi bach y

tu allan. Erbyn i Ddyn y Sandalau ddod i mewn, roedd Bledodyn allan yno, yn gwrthio'r ffôn bach i mewn i'w boced.

Edrychodd i lawr ar y maes parcio ymhell oddi tano. O'r fan yma, edrychai'r ceir fel teganau bach. Hwn oedd y llawr uchaf – wyth llawr i fyny. Doedd dim modd dianc – ond roedd yn rhaid iddo fynd o'r ffordd cyn i Ddyn y Sandalau ei weld.

Heb aros i feddwl beth i'w wneud nesaf, cydiodd Bledodyn yn rheiliau'r balconi a'i dafllu ei hun drosodd, gan hongian ei goesau o'r ymyl. Cydiodd yn dynn a cheisio gweld y balconi islaw. Drwy lwc, roedd e'n ymwrthio allan ychydig. Byddai'n haws iddo lanio arno.

Oherwydd y sos coch seimllyd ar ei ddwylo, dechreuodd ei fysedd lithro. Ceisiodd siglo'i goesau er mwyn peidio taro'r rheiliau with lanio. Roedd ei fywyd yn dibynnu ar ei



sgiliau gymnasteg. Roedd e bob amser wedi bod yn dda ar y barrau cyflin a'r bocs. Ond roedd hyn yn llawer mwy brawychus.

Clywodd sŵn yn yr ystafell uwch ei ben a gollyngodd ei afael.

Siglodd Bledwyn a disgyn. Hedfanodd darn o fricsen i'r awyr. Glaniodd Bledwyn yn drwm ar y balconi islaw. Cododd ar ei draed a cheisio agor y ffenestri. Doedd e ddim yn gallu credu ei lwc pan lithrodd y ffenest ar agor a llwyddodd i gamu i mewn i'r ystafell. Clywodd fenyw yn canu yn y gawod wrth iddo gripian ar draws y carped. Wrth iddo gyrraedd y drws i'r coridor, dyma ddrws yr ystafell ymolchi'n agor a menyw wedi'i lapio mewn tywel yn cerdded allan.

Sgrechiodd yn uchel

'Sori, sori, madam!' meddai Bledwyn o dan ei anadl a rhedeg o'r ystafell. Hyd yn oed ar

ôl iddo wibio i lawr y coridor, roedd e'n dal i allu clywed y fenyw'n gweiddi.

'Help, mae Twm Pip allan fan hyn! Mae camera ganddo hefyd!' roedd hi'n gweiddi.

Petai dim cymaint o frys arno, byddai Bledodyn wedi chwerthin wrth gael ei alw'n Twm Pip. Ond roedd yn rhaid iddo ddod o hyd i Lowri a dweud wrthi am y pethau roedd e wedi'u gweld yn Ystafell 829. Roedd e wedi amau bod rhywbeth o'i le, ac roedd e'n iawn. Terfysgwr oedd Dyn y Sandalau . . . ac roedd Bledodyn yn siŵr ei fod yn paratoi i daro.

Pennod 5

Ar Ras yn Erbyn Amser

Edrychodd Lowri ar bob llun ar ei ffôn bach. Yr un doedden nhw ddim yn ei ddeall oedd y nodyn mewn Ffrangeg.

Date linéite

ven?

Vol RS 621

Tire de toit de 829

'Beth yw ystyr hwnna i gyd?' gofynnodd.

'Does gen i ddim syniad, ond dwi'n siŵr eu bod nhw'n mynd i saethu awyren i lawr. Pa reswm arall fyddai dros fod â'r holl fanylion am yr awyrennau a'r taflegryn 'na?

Dim ond un ateb sydd. Mae Dyn y Sandalau'n bwriadu saethu'r awyren i Washington i lawr. Dyna ystyr RS 621 ar y llyfr nodiadau. Gwelais i e ar sgrin ei lliniadur e. Dyna rif ehediad yr awyren sy'n mynd i Washington.'

'Mae'n rhaid i ti daweud wrth Mrs Prys nawr,' meddai Lowri.

Meddyliodd Bledwyn am eiliad. 'Fe fyddai'n well gen i petait ti'n gwneud. Fe fydd hi'n gwranddo mwy arnat ti nag arna i. Wyt ti'n gallu defnyddio dy ffôn bach i edrych ar y we am y dryll Igla yna? Wedyn fe ddangosa i'r lluniau ar dy ffôn bach i ddynion diogelwch y gwesty. Fe ddweda i wrthyn nhw bod yn rhaid iddyn nhw roi stop ar Ddyn y Sandalau cyn ei bod hi'n rhy hwyr. Fe gwrrda i â ti'n ôl fan hyn mewn chwarter awr.'

Roedd y dyn wrth y ddesg diogelwch yn gwisgo crys gwyn, tei du a siwmpwr las

tywyll. Gofynnodd Bledwyn iddo a allen nhw siarad mewn man preifat.

'Wrth gwrs, fachgen. Dere drwodd i'r swyddfa.' Arweiniodd y dyn Bledwyn i ystafell oedd ag un wal wedi'i gorchuddio â sgriniau teledu. Roedd e'n gallu gweld beth oedd yr holl gamerâu o gwmpas y gwesty yn ei ffilmio. 'Stedda, fachgen,' meddai'r dyn wedyn.

'Dwi wedi darganfod cynllwyn i saethu awyren sy'n mynd i Washington,' meddai Bledwyn. 'Dwi'n credu bod yr awyren yn mynd i godi ar ôl i'r niwl glirio. Mae dyn yn Ystafell 829 a chando daflegryn a dryll mawr. Mae e'n ddyn brawychus ac fe fydd e'n lladd unrhyw un fydd yn ceisio'i rwystro fe. Mae gando fe fapiau o lwybrau hedfan a phethau. Mae'n rhaid i chi fy nghredu i. Mae'n rhaid i rywun wneud rhywbeth!'

Pwysodd y dyn yn erbyn y ddesg, plethu'i freichiau a meddwl am ychydig.

'Dwi'n gweld. Paid â gwylltu, rwy't ti wedi gwneud y peth iawn. Dwi'n dy gredu di, fachgen,' meddai'r dyn.

'Gwych. Diolch byth am hynny,' meddai Bleddyn ac ochneidio. 'Ro'n i'n meddwl y byddech chi'n meddwl fy mod i'n ddwl.'

'Ddim o gwbl. Mae'r cyfan yn gwneud synnwyr perffaith i mi. Fe fydd yn rhaid i mi nodi rhai manylion. Ydy dy rieni di'n gwybod dy fod ti wedi dod i'm gweld i?'

'Nac ydyn. Does neb yn gwybod,' meddai Bleddyn. 'Hynny yw, neb ond Lowri fy ffrind. Mae lluniau o Ystafell 829 gyda hi ar ei ffôn bach. Dwi ddim gyda fy rhieni. Mrs Prys sy'n gyfrifol am ein trip ysgol ni, ond dwi ddim wedi dweud wrthi hi eto.'

'Ysgrifenna dy enw a rhif yr ystafell i mi,' meddai'r dyn diogelwch. 'Wedyn fe ofynnaf i rai o'n dynion ni fynd i weld beth sy'n digwydd.'

'Gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n gwybod bod Dyn y Sandalau'n beryglus. Dyw e ddim ar ei ben ei hun, chwaith. Mae dyn ag esgidiau du gloyw gyda fe.'

Pwysodd y dyn ymlaen i gynig beiro i Bleddyn. Dyna pryd y rhewodd Bleddyn. Doedd dim bawd gan y dyn.

'Oes rhywbeth yn bod, fachgen?'



Doedd Bledwyn ddim yn gallu siarad.

Edrychodd i lawr ar esgidiau du, gloyw'r dyn a'r trowsus tywyll. Yna gwelodd un o'r sgriniau'n crynu o'i flaen. Roedd hi'n union yr un fath â sgrin gliniadur Dyn y Sandalau.

Ehediad RS 621 i Washington yn hwyr yn gadael. Nawr yn gadael 22.43.

O gornel ei lygaid, gwelodd Bledwyn yr ergyd yn dod. Daeth dwrn y dyn yn syth tuag ato wrth i Bledwyn wro i lawr, cydio mewn pwysau papur gwydr oddi ar y ddesg a'i dafllu at ben y dyn. Tarodd glust y dyn yn galed. Ochrneidodd y dyn a chwympo i'r llawr. Arhosodd Bledwyn ddim i weld beth ddigwyddodd wedyn. Rhedodd drwy'r drws a gwibio i fyny'r grisiau. Edrychodd ar ei wats. Roedd hi wedi troi deg o'r gloch. Er nad oedd syniad ganddo beth i'w wneud nesaf, roedd e'n gwybod un peth yn sicr. Beth bynnag oedd yn mynd i ddigwydd, roedd llai na hanner awr ganddo cyn i'r awyren i Washington godi i'r awyr. Roedd yn rhaid iddo ei hachub hi!



Pennod 6

Dim Amser i'w Golli

'O'r gorau, paid â gwylltu,' meddai Lowri wrth Bleddyn. 'Gad i ni feddwl am hyn. Mae'n rhaid i ni symud yn gyflym, ond rydyn ni ar ein pennau ein hunain. Dyw Mrs Prys yn dda i ddim. Fe ddwedodd hi fy mod i'n ddwl a dy fod ti mewn helynt mawr.'

'Beth dwi wedi'i wneud nawr?'

'Mae'r fenyw welaist ti yn ei hystafell ymolchi wedi dweud wrth y gwesty amdanat ti. Fe ddisgrifiodd hi dy grys di'n berffaith ac mae Mrs Prys am dy waed di.'

'Does dim ots amdani hi. Mae'r awyren i Washington yn gadael am 22.43. Mae'r manylion newydd ddod ar y sgrin. Mewn 15 munud. Ond dyna'r cyfan rydyn ni'n ei wybod. Beth allwn ni ei wneud, Lowri?'

Daliodd Lowri ei ffôn bach yn uchel.

'Dwi wedi gwneud rhywbeth i'n helpu ni. Fe ddangosais y llun o'r nodyn yn Ffrangeg i Anabelle. Ffrances yw ei mam hi felly helpodd hi fi i weithio allan beth yw ei ystyr e.'

Date lûwite

Veu?

Vol RS 621

Tîre de toit de 829

'Mae hi'n dweud mai *vendredi* yw *Ven*. Dydd Gwener – heno. *Vol* yw rhif yr ehediad.'

'Ie, gwychi!' gwaeddodd Bleddyn. 'Rydyn ni'n gwybod hynna i gyd yn barod! Beth

sydd angen i ni ei wybod yw o ble y bydd Dyn y Sandalau'n tanio'i daflegryn. Os na ddwn ni i wybod hynny, allwn ni mo'i rwystro fe.'

'Fe ddwedodd Anabelle wrtha i fod "Tire de 829" yn golygu "Saethu o 829." Ystafell 829. Rhaid mai gair byr am "toiled" yw "toit". Dwi'n credu ei fod e'n mynd i danio'r taflegryn o ffenest y tŷ bach.'

'Paid â bod yn ddwl. Dydy e ddim yn gallu tanio taflegryn anferth o fan 'na.'

Roedd Lowri'n edrych yn ofnus. 'Mae e'n gallu, ti'n gwybod. Dwi newydd edrych ar y We. Edrych.'

Dangosodd y manylion ar ei fôn bach:

Mae'r taflegryn yn cael ei saethu o'r ysgwydd gan berson sy'n sefyll neu'n penlinio. Mae blaen PAMS Iglâ yn gallu dod o hyd i'w darged a'i daro mewn eiliadau.

Edrychodd Bleddyn ar ei wats. 'Os na wnawn ni rywbeth yn glou, fe fydd y taflegryn yna'n lladd cannoedd o deithwyr. Dwi'n gosod fy larwm nawr. Mae 12 munud gyda ni.'

Cymerodd Bleddyn allwedd Ystafell 829 allan o'i boced. 'Dwi'n mynd 'nôl i mewn i'r ystafell. Galwa'r heddlu. A galwa'r maes awyr. Dweda wrthyn nhw am atal yr awyren rhag codi.'

'Does dim pwynt galw'r maes awyr, dwi wedi trio'n barod. Dim ond peiriant ateb sydd yna. Mae pawb yn ffonio'r maes awyr. Does neb yn ateb. Bleddyn, chei di ddim mynd i mewn i Ystafell 829. Ddim gyda Dyn y Sandalau ynddi. Ddim ar dy ben dy hun.'

'Fe fyddai i'n ofalus. Pam na ddoi di hefyd, i fod yn gefn i mi? Fe gei di ddod â'r

ffôn bach. Mae angen ffôn bach arnon ni
ac mae Mrs Prys wedi mynd â F'un i.'

Gwenodd Lowri. 'Heil Dwi'n fwy clyfar
nag wyt ti'n feddwl.' Rhoddodd ei ffôn
bach ei hun yn ôl i Bleddyn. 'Ro'n i'n
meddwl efallai y byddai angen hwn arnat
ti. Roedd Mrs Prys wedi'i adael e ar y bwrdd
wrth ei hochr . . . hawdd!'

'Gwych, Lowri. Da iawn. Nawr mae'n
rhaid i ni fynd i Ystafell 829. Glou!'

Rhedon nhw at y lifft. Dim ond deg
munud oedd ar ôl. 'Fe gura i'r drws fel y tro
o'r blaen,' meddai Bleddyn. 'Os allwn ni
gael Dyn y Sandalau i fynd allan o Ystafell
829, fe alla i fynd â'i saethwr taflegrau e.'

Cuddiodd Lowri yn y cwpwrdd eto a
churodd Bleddyn ar y drws. Wedyn rhedodd
i ymuno â hi. Edrychodd Lowri allan ond
ddaeth neb o'r ystafell. Dim byd.

Chwe munud ar ôl.

Cydiodd Bleddyn yn yr allwedd i Ystafell
829. 'Fe fydd yn rhaid i mi fynd i mewn a
gobeithio'r gorau. Aros di y tu allan a rho
rybudd i mi os daw rhywun.'

Edrychodd Lowri ar ei ffôn bach. Roedd
llai na chwe munud ar ôl. 'Fe ffonia i di os
nad wyt ti allan cyn i'r larwm gannu,'
meddai. 'Bydd yn ofalus, Bleddyn . . . *plis.*'

Pennod 7

Cyfrif o 10 i 0

Gwthiodd Bledwyn yr allwedd i'w lle yn araf iawn. Agorodd y drws yn ofalus ac edrych i mewn. Roedd Ystafell 829 yn wag. Roedd hi'n edrych fel petai wedi bod yn wag drwy'r amser. Gwrandawodd Bledwyn y tu allan i'r tŷ bach. Dim sŵn. Agorodd y drws fymryn bach. Doedd neb yno. Doedd dim ffenest hyd yn oed. Suddodd calon Bledwyn. Rhaid bod Dyn y Sandalau'n mynd i saethu'r taflegryn o rywle arall wedi'r cyfan. Roedd e'n rhy hwyr.

Pum munud ar ôl.

Wrth i Bledwyn droi i adael yr ystafell, teimlodd awel ar ei wyneb. Symudodd y llenni wrth y ffenestri Ffengig. Aeth draw i edrych allan ar y balconi. Dim byd.

Camodd allan i edrych dros yr ymyl. Roedd y niwl bron â diflannu, a gallai edrych draw i'r maes awyr a gweld goleuadau'r rhedfa. Dyna pryd y gwelodd e rywbeth yn symud ychydig uwch ei ben. Roedd rhaff yn hongian o'r to uwchben y balconi.

Pedair munud.

Cydlodd Bledwyn yn y rhaff a dechrau dringo. Doedd y rhaffau a'r barrau wal yn y gampfa ddim hanner mor frawychus â hyn. Roedd e'n hongian yn yr awyr wyth llawr i fyny mewn gwynt rhewllyd. Doedd e ddim yn gallu teimlo'i fysedd. Pan gyrhaeddodd ben y rhaff, ceisiodd Bledwyn ei godi ei hun ar ymyl y to. Syllodd ar draws y to gwastad

llydan i'r pen draw. Roedd rhywun yno'n
penlinio . . . gyda'r saethwr taflegrau.


Tair munud.

Roedd Dyn y Sandalau'n anelu taflegryn
at y rhedfa yn y pellter. Roedd wedi troi ei
gefn wrth i Bleddyn geisio codi'i ben-glin
dros y gwtter. Yn sydyn torodd darn o'r
gwtter i ffwrdd a llithrodd Bleddyn. Ceisiodd
gydio yn y rhaff wrth i'w draed siglo allan
dros y maes parcio oedd yn troi oddi tano.
Plannodd ei ewinedd yn y rhaff, a churai ei
galon yn galed yn ei frest. Unwaith eto
ceisiodd ei dynnu'i hun i'r to a dringo dros
y gwtter.

Dwy funud.

Tynnodd Bleddyn ei hun i fyny a rhoio ar
y to.

Roedd y gwynt oer yn torri drwyddo fel



cyllell. Roedd e'n ofni mentro codi ar ei draed wrth ymyl y to – gallai gwrth o wynt ei ysgubo oddi arno a'i daflu i lawr i'r maes pacio ymhell islaw. Aeth ar ei bedwar ar draws y to, tuag at Ddyn y Sandalau. Doedd ganddo ddim syniad beth roedd e'n mynd i'w wneud ond, rhywsut, roedd yn rhaid iddo atal y taflegryn rhag tanio.

Munud.

Gallai Bledodyn glywed awyren yn dechrau symud ar hyd y rhedfa. Symudodd Dyn y Sandalau y saethwr taflegryn a'i bwyntio i'r awyr uwchben y goleuadau coch ar ben draw'r rhedfa. Edrychodd Bledodyn ar ei wats wrth i'r eiliadau olaf dician heibio.

Tynnodd y wats oddi ar ei arddwrn a'i thafu at Ddyn y Sandalau. Cwmpodd y wats swllyd wrth draed y dyn a chodi ofn arno. Edrychodd o'i gwmpas. Sylodd ei lygaid gwyllt ar Bledodyn. Gwaeddodd ac




wedyn troi'n ôl, yn barod i saethu at yr awyren a oedd yn cyflymu i lawr y rhedfa.

Yn sydyn canodd larwm y wats wrth draed y dyn. Baglodd Dyn y Sandalau mewn syndod – a thaflodd Bleddyn ei hun ato.

Cwyrnpodd y saethwr taflegrau i lawr at eu traed. Rhuodd a chododd cymylau o fwg dros y ddau ohonyn nhw. Sgrechiodd roced allan ar draws y to yn wreichion i gyd. Fel tân gwyllt, saethodd allan i'r awyr cyn plymio i lawr yn wyllt . . . i'r maes parcio. Plymiodd i mewn i do rhyw fan a ffrwydro – yn gawod o fflamau ac yn golofn o fwg.

Daeth rhu arall i fodd i'r roced – cododd awyren i'r awyr a hedfan dros eu pennau'n union. Diflannodd i'r cymylau.

Gwaeddodd Dyn y Sandalau'n wyllt. Tynnodd ddryll allan a chicio Bleddyn ar draws y to. Cwyrnpodd Bleddyn yn drwm,




rholio drosodd a rhedeg am yr ymyl. Cododd Dyn y Sandalau ei ddryll ac anelu. Tarodd bwled y to wrth ymyl pen Bleddyn. Fyddai'r fwled nesaf ddim yn methu.

Gwelodd Bleddyn y rhaff roedd e wedi'i dringo. Hyrddiodd ei hun yn syth amdani. Cwmpodd ei ffôn bach a'i arian mân o'i bocedi. Taflodd ei hun at y rhaff, gan droi a throsi'n wyllt yn yr awyr. Daliodd ei afael yn y rhaff wrth iddo siglo'n ôl a bwrw i mewn i'r wal. Dechreuodd y rhaff hollti . . . roedd Dyn y Sandalau'n sefyll uwch ei ben, a'r dryll wedi'i anelu at ben Bleddyn.

Edrychodd Bleddyn i fyny i lygaid oer Dyn y Sandalau wrth i'r rhaff dori. Cwmpodd i'r balconi islaw. Gorweddodd, yn methu symud ac yn darged hawdd. Cyffyrddodd Dyn y Sandalau â chlicied y dryll.

Yn sydyn daeth swm ergydiau ar draws y to. Trodd Dyn y Sandalau ar ei sawdl, a baglu. Digwyddodd popeth mor gyflym. Sgrechiodd Dyn y Sandalau wrth iddo lithro oddi ar yr ymyl, gan gwympo a hollti'i ben ar reiliau'r balconi cyn cwympo'n dawel i'r llawr ymhell islaw. Glaniodd yn drwm



ar y tarmac a gorwedd yn llonydd, o flaen
dau gar heddlu oedd yn sgrechian i stop yn
y maes parcio.

Edrychodd Bledodyn i lawr. Roedd e'n
teimlo'n sâl ac roedd gwaed yn diferu o'i
drwyn. Roedd llaw yn gafael yn ei ysgwydd.
Trodd i weld pwy oedd yno. Lowri.

'Dwi mor falch o dy weld di!' meddai hi.
'Dwi newydd ffonio dy ffôn bach di a doedd
dim ateb.'

'Dwi'n falch dy fod wedi gwneud hynny,'
meddai Bledodyn. 'Canodd y ffôn a gwneud
sŵn saethu. Roedd dy amseru di'n berffaith.
Roedd Dyn y Sandalau ar fin fy lladd i.'

'Fe ffoniais i ti achos ces i neges testun
oddi wrth Anabelle. Nid "toiled" yw ystyr
"toir" o gwbl. Gair Ffrangeg yw e am -'

'To?'

'Sut roeddet ti'n gwybod? Dwi wedi galw'r
heddlu hefyd.' Aeth Lowri â Bledodyn yn ôl i
Ystafell 829. Roedd dyn yn gorwedd yno, yn
gwingo ar lawr. Roedd e wedi'i glymu â
chebl hir, ac roedd yr hwfer ar ei ben.

Gwenodd Lowri. 'Fe geisiodd y dyn
diogelwch 'na fy nala i, ond roedd gen i
gynlluniau eraill ar gyfer Mr Dim Bawd.
Roedd e'n dal braid yn ddryslyd ar ôl y
pwysau papur daflaist ti ato. Felly fe roddais
i ergyd iddo fe ar ochr arall ei ben. Fe
dynnais yr hwfer allan o'r cwpwrdd a'i fwrw
ar ei glust â'r plwg!'

Yn sydyn rhuthrodd Mrs Prys i mewn i'r
ystafell. Roedd hi'n wylt gacwn . . . ac
wrth ei hochr roedd dau blismon yn cario
drylliau.

Pennod 8

Rhedeg yn Hwyr

Roedd yn rhaid i Bledwyn a Lowri ysgrifennu datganiadau diddiwedd i'r heddlu. Buon nhw'n rhoi oriau o gyfweiliadau. Roedd y papurau newydd, y teledu a'r radio i gyd eisiau gwybod beth oedd wedi digwydd.

Y bore canlynol daeth rhieni Bledwyn a thad Lowri i'r gwesty wrth y maes awyr – jest mewn pryd i Mrs Prys fynd â'i thrip ysgol i Awstria. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach cafodd Bledwyn a Lowri daith yn awyren yr heddlu er mwyn cael ymuno â'r trip ysgol am ail hanner yr wythnos. Wrth iddyn nhw lanio yn Awstria, buon

nhw'n dyfalu beth fyddai Mrs Prys yn ei ddweud wrthyn nhw.

'Gobeithio na fydd hi'n ddrwg ei hwyl wrth ddod i gwrdd â ni,' meddai Bledwyn. 'Fe fentra i y bydd hi'n dweud y drefn am yr holl straen achoson ni iddi hi.'

Ond nid dyna fel roedd hi o gwbl. Daeth Mrs Prys atyn nhw'n wên o glust i glust. Buodd hi byd yn oed yn giglan yn y taci ar eu ffordd i'r gwesty.

'Mae'n amlwg fy mod i wedi gwneud cam â ti, Bledwyn,' meddai. 'Maen nhw'n dweud dy fod ti wedi bod yn fachgen dewr iawn ac wedi achub cannoedd o fywydau. Dwi'n falch iawn ohonot ti.'

Bu bron i Bledwyn dagu. Dyna'r tro cyntaf iddi siarad ag ef heb ddweud y drefn. Dangosodd hi'r penawdau yn y papurau newydd iddo.

Campau Bachgen y Campfa

Larwm Wats Ceiliog yn Clochdar

Bachgen yn Achub Awyren

Torri Rhaff ac Achub Cannoedd

Daliodd Mrs Prys ei llaw allan.

'Ond,' meddai hi, 'gwell i ti roi dy ffôn bach i mi ei gadw. Rhag ofn. Wedi'r cyfan, fyddwn i ddim eisiau i ti fynd i ragor o helynt oherwydd rhyw hen synau twp.'

Roedd Bleddyn yn methu rhwystro'i hun rhag gwneud swm rhech uchel â'i wefusau. Trodd y gyrrwr taci i edrych ar Bleddyn, a dyna'r car yn bwrw ymyl yr heol.

Chwarddodd Bleddyn 'Dyna'r swm dwi eisiau ar gyfer fy larwm nesal'

'Ddim ar fy nhrif sgïo i, beth bynnag,' meddai Mrs Prys yn swta.

'Wel, rhai fel yna ydy bechgyn,' chwarddodd Lowri. 'Diolch bythi!'

Arhosodd y taci o flaen y gwesty ac edrychodd Bleddyn i fyny ar y mynyddoedd oedd dan drwch o eira. Teimlai'n falch iawn. Roedd hyn yn wych. Roedd e ar dân eisiau rhedeg i mewn i'r gwesty. Wedi'r cyfan, doedd e a Lowri ddim wedi gorffen chwarae'r gêm cuddio eto.

TARO'R TARGED

20:30 Mae Bledyn yn clywed rhywbeth nad oes neb eisiau iddo ei glywed.

21:15 Mae'n dod i wybod y gyfrinach.

22:00 Nawr mae taflegryn yn barod i ffrwydro awyren yn llawn o bobl. A dim ond bachgen 13 oed sy'n gallu eu hachub nhw.

22:43 TARO'R TARGED

Mae'r cloc yn tician, Bledyn . . .



Cyfras yr Hebog

Gwasg Gomer
Llandysul
Ceredigion
SA44 4LL

Llun y clawr: Pulsar Studios

ISBN 978-1-84851-000-5



9 781848 510005

www.gomer.co.uk